# Rôl y Myfyriwr-lywodraethwr

Rôl y Bwrdd yw gosod cyfeiriad cyffredinol y Coleg trwy gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar y Coleg, gan gynnwys rheoli adnoddau a chyllid, penodi'r Pennaeth a'r Clerc, a goruchwylio gweithrediadau'r Coleg.

Y Pennaeth, Mark Jones, a'i dîm rheoli uwch sy'n gyfrifol am redeg y Coleg o ddydd i ddydd.

Y Myfyriwr-lywodraethwr sy'n sy'n gyfrifol am ddarparu gogwydd a phersbectif y dysgwr i Fwrdd y Gorfforaeth.

Eich Sgiliau a'ch Rhinweddau

- Mae gennych ddiddordeb yn y Coleg ac angerdd i ddatblygu'r Coleg i fod y coleg gorau yng Nghymru.
- Rydych yn barod i weithio fel aelod o 'dîm' y Bwrdd.
- Rhaid i chi fod yn barod i ddysgu rhai o'r agweddau cymhleth ar redeg y Coleg a llywodraethu.
- Rydych yn hyderus yn siarad ac yn cyflwyno syniadau a safbwyntiau mewn modd priodol, ac rydych chi'n gallu cyflwyno perbsectif a gogwydd y dysgwr yn effeithiol.
- Rydych yn gallu gwrando ac ystyried safbwyntiau eraill.
- Rydych yn gallu neilltuo eich agenda bersonol ac yn gallu cyflwyno 'barn y dysgwr', gan weithredu er budd y Coleg bob amser.
- Rydych yn barod i weithio ychydig o oriau ychwanegol bob mis er mwyn paratoi a mynychu cyfarfodydd.
- Disgwylir i chi gadw at bolisïau a rheolau llywodraethu.

Mae barn yr aelod sy'n fyfyriwr yn bwysig iawn ac mae gan y Corff ddiddordeb i'w chlywed. Dyma gyfle felly i fyfyriwr leisio barn y myfyrwyr yn y Pwyllgor Cymorth i Ddysgwyr.

Sut ydych chi'n dod yn fyfyriwr-lywodraethwr?

Mae rhai pobl yn anghymwys i fod yn llywodraethwyr, a gofynnir ichi wirio'r meini prawf yn cyflwyno cais.

Cyflwynwch gais trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen hon

Mae'r broses a'r amserlen fel a ganlyn:

- Gall pob myfyriwr amser llawn neu ran-amser (ar draws pob maes astudio a phob campws) ymgeisio i fod yn fyfyriwr-lywodraethwr;
- Mae ceisiadau'n cau am hanner nos ar 1 Hydref 2021;
- Un myfyriwr yn unig fydd yn cael ei benodi;
- Cynhelir etholiad os oes mwy nag un ymgeisydd yn cyflwyno cais;
- Bydd unrhyw un sy'n llenwi ffurflen gais yn cael ei wahodd i gyfarfod gyda Sharon Barron, Clerk y Bwrdd, ar 4 Hydref 2021 am 6.00pm i drafod y rôl a chadarnhau ei fod am barhau;
- Bydd yr etholiad yn rhedeg rhwng 11 a 15 Hydref a bydd myfyrwyr yn bwrw eu pleidlais yn electronig;
- Gall ymgyrchu ddigwydd rhwng 5 Hydref a diwedd y bleidlais ar 15 Hydref 2021 (efallai y byddwch chi am baratoi unrhyw ddeunydd cyn 5 Hydref 2021);
- Bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei benodi i'r Bwrdd;
- Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd darn arian yn cael ei daflu i benodi'r myfyriwr-lywodraethwr newydd;
- Os nad oes ceisiadau wedi'u cyflwyno erbyn y dyddiad cau cychwynnol, rhoddir wythnos ychwanegol i ymgeiswyr gyflwyno cais, a bydd cyfnod yr etholiad yn cael ei wthio ymlaen (un wythnos);
- Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am y canlyniad ar y dydd Llun ar ôl i'r broses bleidleisio ddod i ben;
- Ar ôl ethol yr ymgeisydd llwyddiannus, mi fydd yn cael ei wahodd i ddod i'r cyfarfod cyntaf.

Mae'r pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn gwneud argymhelliad ar benodi i'r Bwrdd, a bydd y penodiad yn ddilys am un flwyddyn academaidd.

Sharon Barron yw Clerc y Bwrdd, a gellir cysylltu â hi drwy ebostio sharon.barron@coleggwyrabertawe.ac.uk.